Jen Persson
Cyfarwyddwr, defenddigitalme

5 Rhagfyr 2017

Annwyl Jen

**Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017**

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 29 Hydref 2017 i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Rheoliadau uchod. Rwyf yn ymateb fel Cadeirydd y Pwyllgor.

Rôl y Pwyllgor yw archwilio offerynnau statudol yn unol â gofynion Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 ac adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Fel y gwyddoch, ystyriodd y Pwyllgor y Rheoliadau hyn yn ei gyfarfod ar 25 Medi a 16 Hydref 2017 yn y drefn honno. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a chyhoeddodd adroddiad clir ar hynny wedyn.

Adroddodd y Pwyllgor un pwynt teilyngdod mewn perthynas â Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017. Yn y bôn, mae'r rhain yn faterion a allai fod o ddiddordeb i'r Cynulliad, fel offeryn statudol nad yw'n gweithredu polisi yn y ffordd a nodwyd neu offeryn statudol yr ystyrir ei fod yn wleidyddol gynhennus neu'n arwyddocaol, o dan Reol Sefydlog 21.3 caiff y Pwyllgor ystyried yr hyn a elwir yn bwyntiau adrodd teilyngdod, ac adrodd arnynt.

Mae cyhoeddi'r adroddiadau hyn yn dod â rôl graffu'r Pwyllgor o ran y Rheoliadau hyn i ben. Mae'r pryderon ychwanegol a godwch yn eich gohebiaeth yn faterion i

Lywodraeth Cymru eu hystyried. Felly, byddwn yn awgrymu eich bod yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i godi'r materion hyn.

Yn gywir,



**Mick Antoniw**

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.